

POLISI ENWAU CYMRAEG

Polisi ar gofnodi enwau Cymraeg yn nata yr Arolwg Ordnans



Cyfrifoldeb am y ddogfen hon

Y Prif Swyddog Geo-ofodol yw perchennog y ddogfen hon.

Hanes newid y ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
Fersiwn 1.0a	Chwefror 2015	Drafft cyntaf
Fersiwn 1.0b	Chwefror 2015	I'w adolygu
Fersiwn 1.0	Mehefin 2015	Cyhoeddiad cyntaf
Fersiwn 1.1	Awst 2016	Mân ddiwygiadau
Fersiwn 1.2	Medi 2018	Mân ddiwygiadau
Fersiwn 1.3	Chwefror 2024	Mân ddiwygiadau

Cyfeiriad cyswllt

Pe bai gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â chynnwys y ddogfen hon, cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid yr Arolwg Ordnans - customerservices@os.uk

Nodau masnach

Mae'r Arolwg Ordnans, Ordnance Survey a symbol yr OS yn nodau masnach yr Arolwg Ordnans, sef asiantaeth mapio Prydain.

Cynnwys

Adran	Tudalen
1	CYFLWYNIAD4
2	CWMPAS.....4
3	EGWYDDORION CYFFREDINOL WRTH YMDRIN AG ENWAU CYMRAEG.....5
3.1	BYDD YR AROLWG ORDNANS YN:5
3.2	NI FYDD YR AROLWG ORDNANS YN:5
4	FFYNONELLAU AWDURDODOL.....5
4.1	BYDD YR AROLWG ORDNANS YN:5
4.2	NI FYDD YR AROLWG ORDNANS YN:5
5	CASGLU A CHOFNODI GWYBODAETH6
5.1	BYDD YR AROLWG ORDNANS YN:6
5.2	NI FYDD YR AROLWG ORDNANS YN:6
ATODIAD A HIERARCHAETH ENWAU7	
A.1 YR AMGYLCHEDD NATURIOL7	
A.2 YR AMGYLCHEDD O WAITH DYN8	
A.3 YR AMGYLCHEDD GWEINYDDOL8	
ATODIAD B GEIRFA9	
ATODIAD C DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG9	

I CYFLWYNIAD

Mae polisi enwau Cymraeg hwn yn rhan o bolisi enwau corfforaethol yr Arolwg Ordnans (ninnau, ein), sy'n gofyn am ddefnyddio ymagwedd gyson ar draws ein cynnyrch mapio.

Mae gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac mae'n cael ei defnyddio'n eang drwy'r wlad ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'r defnydd hwn yn cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth (gan gynnwys Deddf Iaith 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), ynghyd â pholisiau Llywodraeth Cymru sydd â gweledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Ceir cydnabyddiaeth fod yr iaith Gymraeg, a'r enwau lleoedd sy'n deillio ohoni, yn rhan bwysig o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae hyn, yn ei dro, wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o enwau Cymraeg ar fapiau'r Arolwg Ordnans a cheisiadau i enwau gael eu trosi o'r Saesneg i'r Gymraeg neu i gael eu harddangos yn ddwyieithog ar fapiau.

Mae ein harchif enwau wedi cael ei ddatblygu dros gyfnod hir gan ddefnyddio tystiolaeth weledol ac awdurdodol a gasglwyd â llaw. Er mwyn parhau i gynnal hygyrdded y cynnyrch presennol a'n gallu i fodloni'n llawn anghenion sefydliadau a'r cyhoedd yng Nghymru, mae angen i ni sicrhau bod ein polisi casglu a chynnal enwau yn ymatebol i'r amgylchedd polisi presennol a'r gofynion cyfreithiol sydd ar sefydliadau yng Nghymru, gan sicrhau hefyd fod y ffurfiau a gofnodir yn adlewyrchu defnydd lleol.

Yn gynyddol, mae cwsmeriaid yn defnyddio cyfuniad o'n cynnyrch. Mae hyn wedi amlygu'r ffyrdd y gall sillafiad a ffurf enw amrywio. Mae'n rhesymol i gwsmeriaid ddisgwyl fod gwybodaeth am enwau yn gyson ar draws ein holl gynnyrch. Bydd chwynnu anghysondebau o'n cronfeydd data ac amlygu ffynonellau awdurdodol yn symleiddio gwaith cynnal ac yn lleihau costau.

Bydd cyfyngiadau gofod yn parhau i effeithio ar ein penderfyniadau ynghylch arddangos testun yn ein mapiau papur. Fodd bynnag, bydd ein hystod o gynnyrch digidol yn cynnig hyblygrwydd cynyddol i gwsmeriaid gan oresgyn nifer o'r heriau mewn perthynas â gofod i arddangos enwau deul.

Mae'r Arolwg Ordnans yn cydnabod ac yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o Gymru lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu ac yn gwneud cyfraniad hanfodol i'w diwylliant, cymdeithas a'i heconomi.

I'r diben hwn, mae'r polisi hwn yn diffinio'r rhesymeg, y prosesau a'r gweithdrefnau y bydd yr Arolwg Ordnans yn eu dilyn wrth gasglu ac arddangos enwau Cymraeg, lle cânt eu defnyddio'n gyffredin, ar ein mapiau a'n cynnyrch.

2 CWMPAS

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â defnyddio ac arddangos enwau, gan ddefnyddio'r system sillafu Cymraeg ar ein mapiau a'n cynnyrch.

Mae'r term 'enwau' yn y ddogfen hon yn berthnasol i enwau priod yn unig, er enghraifft, 'Aberdyfi', nid enwau disgrifiadol, er enghraifft, 'grid gwartheg'.

3 EGWYDDORION CYFFREDINOL WRTH YMDRIN AG ENWAU CYMRAEG

3.1 BYDD YR AROLWG ORDNANS YN:

- cefnogi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a sefydlodd yr egwyddor fod y Gymraeg a'r Saesneg i'w trin ar y sail eu bod yn gyfartal mewn bywyd cyhoeddus, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sefydlodd yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, gan gydnabod hefyd y cyfyngiadau sy'n bodoli ym mheth o'n cynnyrch mapio fel y manylir yn adran 1.0;
- ymdrechu i gael cysondeb a chywirdeb wrth arddangos enwau ym mhob cyfres o fapiau ac ar draws pob cynnyrch;
- cydnabod pob un o'r [29 o lythrennau'r wyddor Gymraeg](#) a'r llythrennau acennog sy'n perthyn iddynt, ond yn cadw'r hawl i gofnodi llythrennau deugraff fel dwy lythyren ar wahân yn y Gronfa Ddata Ddaearyddol Genedlaethol (NGD)
- sicrhau bod ffurfiau safonol swyddogol, defnydd cyffredin a thystiolaeth a geir drwy ffurfiau hanesyddol yn cael eu hystyried wrth bennu sillafiad a/neu ffurf enw;
- ceisio cael awdurdod priodol, trwy gorff gosod safonau a gydnabyddir yn eang (ceir esiamplau yn Atodiad A), am ffurf enwau Cymraeg ond, yn achos anghytundeb, cadw hawl olygyddol derfynol i sicrhau mapiau a chynnyrch derbyniol o ran cartograffeg;

3.2 NI FYDD YR AROLWG ORDNANS YN:

- Awdurdod ar gyfer enwau Cymraeg; nac
- yn newid i'r Gymraeg unrhyw enwau sydd wedi cael eu Seisnigeiddio, neu fel arall, ar awdurdod unrhyw unigolyn.

4 FFYNONELLAU AWDURDODOL

4.1 BYDD YR AROLWG ORDNANS YN:

- cael consensws ar ffurf a sillafiad derbyniol enwau Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg drwy:
 - gyfeirio at y ffurfiau a gyhoeddir yn y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar lein;
 - rhoi sylw dyledus i'r Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru;
 - cysylltu'n uniongyrchol â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gael cyngor os bydd anghysondebau'n parhau.

4.2 NI FYDD YR AROLWG ORDNANS YN:

- derbyn dehongliad unigolyn wrth ystyried enwau Cymraeg, lle gall fod gwrthdaro â'n sillafiad neu'n fersiwn ni heb wirio ymhellach â'r ffynonellau awdurdodol a restrir yn Atodiad A.

5 CASGLU A CHOFNODI GWYBODAETH

5.1 BYDD YR AROLWG ORDNANS YN:

- casglu a chofnodi enwau Cymraeg os ydynt yn cael eu defnyddio'n gyffredin o dan y rheolau a ddiffinnir yn Atodiad A ac
- rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg trwy arddangos yr enw yn yr un ffont a'r un maint, os yw'r enwau Cymraeg a Saesneg wedi cael eu cofnodi o dan y rheolau yn Atodiad A. Bydd testun fel arfer yn dangos y Gymraeg o flaen y Saesneg ond gall hyn amrywio o gynnyrch i gynnyrch ac o fewn y cynnyrch ei hyn o ganlyniad i gyfyngiadau ffisegol y broses cartograffeg a graddfa'r map;
- anelu at gyflawni cysondeb o ran sillafu lle mae nodweddion naturiol, fel afonydd, llynnoedd a mynyddoedd, yn rhannu'r un elfen ddisgrifiadol neu enw priod
- diweddarau ei fapiau yn unol â'i bolisiau adolygu
- anelu at sicrhau cysondeb ar draws ei holl fapiau

5.2 NI FYDD YR AROLWG ORDNANS YN:

- gosod enwau dwyieithog yn ein testun cartograffig i nodweddion yn yr amgylchedd naturiol fel y'u diffinnir yn atodiad A.1, ac eithrio ar gyfer y prif nodweddion.
- cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, nac o'r Saesneg i'r Gymraeg, i greu mapiau â 100% o'r enwau'n ddwyieithog.

ATODIAD A: HIERARCHAETH ENWAU

Mae pob enw yn y Gronfa Ddata Ddaearyddol Genedlaethol yn cael eu cynnwys yn un o'r tri phrifategori isod:

A.1 YR AMGYLCHEDD NATURIOL

Dylid ceisio cael cysondeb, lle mae nodweddion naturiol, er enghraifft, afon, llyn neu fynydd, yn rhannu'r un enw.

Lle bônt ar gael, bydd enwau deuol yn cael eu casglu i'w cynnwys o fewn yr NGD ar yr amod bod y ddau yn cael eu defnyddio, ac mai'r rhain yw'r ffurfiau derbynol yn lleol a/neu yn hanesyddol. O ganlyniad i gyfyngiadau gofod, dim ond prif nodweddion fydd â thestun cartograffeg yn y ddwy iaith. Ystyrir mynyddoedd mawr, ynysoedd, pentiroedd, ardaloedd môr ac ati yn brif nodweddion.

Nodwedd	Awdurdod enghreifftiol ar gyfer arweiniad	Enghreifftiau	Testun Cartograffig Deuol?
Ynysoedd	Mapiau hanesyddol a defnydd lleol a/neu Gomisiynydd y Gymraeg/Parciau Cenedlaethol/Cyfoeth Naturiol Cymru	Ynys Enlli / Bardsey Island	Oes
Mynyddoedd	Mapiau hanesyddol a defnydd lleol a/neu Gomisiynydd y Gymraeg/Parciau Cenedlaethol/Cyfoeth Naturiol Cymru	Yr Wyddfa / Snowdon	Oes
Pentiroedd	Mapiau hanesyddol a defnydd lleol a/neu Gomisiynydd y Gymraeg/Parciau Cenedlaethol/Cyfoeth Naturiol Cymru	Pwynt Llanbadrig / Llanbadrig Point	Nac oes
Creigiau	Mapiau hanesyddol a defnydd lleol a/neu Gomisiynydd y Gymraeg/Parciau Cenedlaethol/Cyfoeth Naturiol Cymru	Adda ac Efa / Adam and Eve	Nac oes
Afonydd	Mapiau hanesyddol a defnydd lleol a/neu Gomisiynydd y Gymraeg/Parciau Cenedlaethol/Cyfoeth Naturiol Cymru	Afon Hafren / River Severn	Oes

Ardaloedd môr	Mapiau hanesyddol a defnydd lleol a/neu Gomisiynydd y Gymraeg/Parciau Cenedlaethol/Cyfoeth Naturiol Cymru	Bae Aberdaron / Aberdaron Bay	Nac oes
---------------	---	-------------------------------	---------

A.2 YR AMGYLCHEDD O WAITH DYN

Yn yr amgylchedd o waith dyn, bydd enwau deul yn cael eu dangos os ydynt i'w gweld yn y lleoliad a/neu pan fydd ganddynt awdurdod priodol.

Os ydynt ar gael, bydd enwau deul yn cael eu casglu i'w cynnwys yn y Gronfa Ddata Ddaearyddol Genedlaethol. Fodd bynnag, os yw gofod yn gyfyngedig am resymau cartograffeg, bydd enwau'n cael eu harddangos yn unol â chymal 5.1 o'n polisi.

Cynnwys enwau deul lle cânt eu defnyddio:

Nodwedd	Tystiolaeth / Awdurdod enghreifftiol ar gyfer arweiniad	Enghreifftiau
Aneddiadau	Plac / Awdurdod lleol a/neu Gomisiynydd y Gymraeg Plac / Awdurdod lleol	Abertawe / Swansea
Enwau ffyrdd a strydoedd	Plac / Awdurdod lleol	Heol y Frenhines / Queen Street
Enwau adeiladau	Plac / Perchennog	Canolfan Mileniwm Cymru / Wales Millennium Centre
Coedwigoedd (o waith dyn)	Plac / Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r perchennog	Coed Gogerddan / Gogerddan Wood

A.3 YR AMGYLCHEDD GWEINYDDOL

Bydd enwau deul yn cael eu cofnodi ar gyfer awdurdodau unedol. O ganlyniad i gyfyngiadau'r system bresennol bydd pob enw gweinyddol arall yn cael ei gofnodi yn Saesneg yn unig.

ATODIAD B: GEIRFA

Tymor	Diffiniad
Enw priod	Enw priod yw'r enw a roddir i nodwedd, adeilad neu le i'w wahaniaethu oddi wrth nodweddion neu leoedd o natur debyg. Er enghraifft, Castell Conwy.
Enw disgrifiadol	Yr enw a roddir i nodwedd, fel blwch postio, carreg filltir neu flwch ffôn, sy'n disgrifio natur y nodwedd.
Deugraff	Llythyren sy'n cynnwys dwy lythyren gysylltiedig. Yn y Gymraeg, mae 8 lythyren ddeugraff.
Y Gronfa Ddata Ddaearyddol Genedlaethol (NGD)	Cronfa ddata sy'n cynnwys data sy'n ymwneud â nodweddion a ffiniau ffisegol ar arwyneb y Deyrnas Unedig.
Amgylchedd o waith dyn	Gwrthrychau a nodweddion sydd wedi cael eu creu gan weithgarwch dynol, gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig.
Amgylchedd naturiol	Gwrthrychau a nodweddion sydd wedi cael eu creu o ganlyniad i weithgarwch naturiol (heb fod yn ddynol).

ATODIAD C: DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

- Geobase-04 Yr Arolwg Ordnans: Canllaw Cipio Data.